# CYTUNDEB ARFAETHEDIG AGB CAERNARFON / BANGOR

DRAFT

Top of the Document

**DRAFFT O GYTUNDEB GWEITHREDU**

**Dyddiedig**

**Cyngor Gwynedd**

**(y Cyngor )**

**AGB Caernarfon BID / AGB Bangor BID**

**(Cwmni'r AGB)**

DRAFT

Top of the Document

**Cynnwys**


**1 Diffiniadau**

**2 Awdurdodau Statudol**

**3 Cychwyniad**

**4 Gosod yr Ardoll AGB**

**5 Y Cyfrif Refeniw AGB**

**6 Debydau o'r Cyfrif Refeniw AGB**

**7 Casglu'r Ardoll AGB**

**8 Gweithdrefnau sydd ar gael i'r Cyngor i orfodi talu'r Ardoll AGB**

**9 Mecanweithiau Gorfodi am beidio casglu'r Ardoll AGB gan y Cyngor**

**10 Gweithdrefnau Cyfrifo a Monitro**

**11 Terfynu**

**12 Cyfrinachedd**

**13 Hysbysiadau**

**14 Amrywiol**

**15 Arfer pwerau'r Cyngor**

**16 Contractau (Hawliau Trydydd Partïon)**

**17 Cyflafareddu**

**18 Rhyddid Gwybodaeth**


DRAFT

**Cytundeb Gweithredu**

**Dyddiedig**

(1) Cyngor Gwynedd (y Cyngor), Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd.

(2) AGB Caernarfon BID / AGB Bangor BID (y Cwmni AGB) cwmni cyfyngedig trwy warant gyda swyddfa gofrestredig yn y cyfeiriad

**Cronicliadau**

A Y Cyngor yw'r awdurdod bilio at ddibenion Deddf Llywodraeth Leol 2003 ac y mae'n gyfrifol am gasglu'r Ardoll AGB a gweinyddu'r Cyfrif Refeniw AGB a ddefnyddir tuag at weithredu'r AGB yn ardal y Cyngor a chyllido'r Trefniadau AGB.

B Mae'r Cwmni AGB yn gyfrifol am weithredu'r AGB ac am ddefnyddio'r Ardoll AGB at ddibenion cyrraedd yr amcanion a'r dyheadau a osodir allan yn y Trefniadau AGB.

C Dymuna'r naill ochr a'r llall gadarnhau'r trefniadau ar gyfer casglu'r Ardoll AGB ynghyd â threfniadau cyffredinol ynghylch y berthynas a sefydlir rhwng y Cyngor a'r Cwmni AGB tra pery'r AGB.

D Pwrpas y Cytundeb hwn yw:

- sefydlu'r weithdrefn ar gyfer gosod yr Ardoll AGB;
- cadarnhau'r sail y bydd y Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r Ardoll AGB;
- gosod allan y mecanweithiau gorfodaeth sydd ar gael ar gyfer casglu'r Ardoll AGB;
- gosod allan y gweithdrefnau ar gyfer cyfrifo a throsglwyddo'r Ardoll AGB;
- darparu ar gyfer monitro ac adolygu'r ardoll AGB;

- Cadarnhau'r modd o dalu treuliau'r Cyngor a ddaeth i'w rhan wrth gasglu'r Ardoll AGB.

**CYTUNIR:**

**1 Diffiniadau**

y **Treuliau Gweinyddol** yw'r holl gostau a ddaw i ran y Cyngor wrth weinyddu, casglu ac adennill yr Ardoll AGB gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw gostau staffio ac unrhyw wariant a ddaeth i ran y Cyngor yng nghyswllt meddalwedd neu systemau eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r ardoll AGB ac unrhyw gostau cysylltiedig â'r Cytundeb hwn neu unrhyw derfynu arno.

yr **Adroddiad Blynyddol** yw adroddiad i'w baratoi gan y Cyngor sy'n rhoi manylion am y canlynol:-

(i) cyfanswm yr Ardoll AGB a gesglir yn ystod y Flwyddyn Ariannol berthnasol;

(ii) manylion y raddfa lwyddiant am gasglu'r Ardoll AGB;

(iii) cynigion y Cyngor (os oes rhai) i helpu i wella eu heffeithlonrwydd wrth gasglu a gorfodi'r ardoll AGB;

(iv) manylion y Talwyr Ardoll AGB hynny sydd wedi talu'r Ardoll AGB a'r rhai nad ydynt wedi talu'r ardoll AGB; a

(v) cynigion y Cyngor am ddyledion drwg neu amheus

yr **Hysbysiad Apêl** yw hysbysiad a gyflwynir gan y Cwmni AGB yn unol â chymal 9.2.

Bydd i **Ddyledion Drwg neu Amheus** yr un ystyr ag a ddisgrifir yn Rhan 2 Atodlen 3 y Rheoliadau.

Yr **AGB** yw'r Ardal Gwella Busnes a reolir ac a redir gan y Cwmni AGB ac sy'n gweithredu yn y strydoedd a osodir allan isod ac sy'n eu cynnwys, ac a ddangosir ar y map a atodir yma.

Cynhwysir y strydoedd canlynol yn ardal yr AGB yn gyfan neu yn rhannol:-

| Caernarfon | Bangor |
|---|---|
| Castle Square / Y Maes | High Street / Stryd Fawr |
| Pool Street / Stryd Llyn | Station Road / Stryd yr Orsaf |
| Greengate Street / Tan y Bont | Ffordd Gwynedd |
| Hole in the Wall Street / Stryd Twll yn y Wal | Deiniol Road / Ffordd Deiniol |
| Palace Street / Stryd y Plas | Tan-y-Fynwent |
| Shirehall Street / Stryd y Jêl | Waterloo Road / Stryd Waterloo |
| Bangor Road / Stryd Bangor | Garth Road / Ffordd Garth |
| Pool Hill / Penllyn | Glanrafon |
| St Helens Road / Ffordd Santes Helen | Dean Street / Stryd y Deon |
| Church Lane / Lôn yr Eglwys | Ashley Road |
| Northgate Street / Stryd Pedwar a Chwech | Brick Street |
| High Street / Stryd Fawr | Mount Street |
| Lôn Crwyn | Plas Llwyd Terrace |
| North Penrallt / Penrallt Uchaf | Tan y Fynwent |
| Lôn Twthill | Ebenezer Place |
| Slate Quay / Cei Llechi | York Place |
| Castle Ditch / Pendeitsh | Ffordd y Ffynnon |
| Castle Hill / Allt y Castell | Sackville Road / Ffordd Sackville |
| Bridge Street / Bont Bridd | |
| Pool Side / Penllyn | |
| Bank Quay / Cei Banc | |
| Glan Môr / Crown Street | |
| Doc Fictoria | |
| Balaclava Road / Balaclafa | |
| Church Street / Stryd yr Eglwys | |
| Market Street / Stryd y Farchnad | |
| Pretoria Terrace / Rhes Pretoria | |
| Castle Street / Stryd y Castell | |
| Mill Lane / Lôn y Felin | |
| South Penrallt / Penrallt Isaf | |
| Pool Lane / Pen y Graig | |
| Allt Pafiliwn | |

Golyga'r **Trefniadau AGB** y trefniadau hynny i'w gosod yn eu lle yn unol â'r Rheoliadau gan y Cwmni AGB er mwyn galluogi'r prosiectau a nodwyd i'w gwneud er lles yr AGB neu'r rhai sydd yn byw, gweithio neu yn cynnal unrhyw weithgaredd yn yr ardal.

DRAFT

**Adroddiad y Cwmni AGB** yw adroddiad am bob Blwyddyn Ariannol i'w baratoi gan yr AGB.

Cwmni sy'n rhoi manylion am y canlynol:-

(a) cyfanswm incwm a gwariant yr Ardoll AGB;
(b) incwm a gwariant arall y Cwmni AGB nad yw'n Ardoll AGB;
(c) datganiad diffygion gwirioneddol a rhai sydd i ddod; a
(d) amrywiol fentrau a chynlluniau y gwariwyd yr ardoll AGB arnynt gan y Cwmni AGB

yr **Ardoll AGB** yw'r tâl a godir ac a gesglir yn ardal yr AGB yn unol â'r Rheoliadau a'r Cytundeb hwn. Mae manylion yr ardoll AGB wedi eu cynnwys yn Atodlen 1.

**Hysbysiad Terfynu'r Cwmni AGB** yw hysbysiad i'w gyflwyno gan y Cwmni AGB ar y Cyngor yn unol â chymal 11.8 a Rheoliad 18 y Rheoliadau.

**Talwr/wyr Ardoll AGB** yw'r talwyr trethi annomestig sy'n atebol i dalu'r ardoll AGB a ddisgrifir yn yr Atodlen.

**Rheolau'r Ardoll AGB** yw'r rheolau a osodir allan yn yr Atodlen sydd yn gosod allan sut y caiff yr Ardoll AGB ei gyfrifo, manylion Eiddo Eithriedig a gofynion eraill ynghylch yr Ardoll AGB (fel y gellir eu diwygio gan bleidlais newid lwyddiannus).

y **Cyfrif Refeniw AGB** yw'r cyfrif i'w sefydlu yn unol â Rheoliad 14 ac a redir yn unol ag Atodlen 3 y Rheoliadau.

**Tymor yr AGB** yw'r cyfnod o 1 Ebrill 2016 tan 31Mawrth 2021.

**Hysbysiad Terfynu'r Cyngor** yw'r hysbysiad a gyflwynir gan y Cyngor i'r Cwmni AGB yn unol â chymal 11.1 a Rheoliad 18 y Rheoliadau.

**Cyfranwyr** yw'r Talwyr Ardoll AGB neu Gyfranwyr eraill sy'n gwneud cyfraniadau gwirfoddol i'r Cwmni AGB.

Bydd gan **Hysbysiad Hawlio** yr un ystyr ag a roddir iddo fel sydd wedi ei osod allan ym mharagraffau 2 a 3 Atodlen 4 y Rheoliadau.

Bydd gan **Hereditament** yr un ystyr ag a ddiffinnir yn y Rheoliadau.

**Gohebiaeth Electronig** yw gohebiaeth a drosglwyddir (boed oddi wrth un unigolyn at un arall, o un ddyfais i un arall neu oddi wrth unigolyn i ddyfais neu vice versa):

(a) trwy system delegyfathrebu (yn ystyr Deddf Telegyfathrebu 1984); neu
(b) trwy ddulliau eraill ond ar ffurf electronig

**Hysbysiad Gorfodi** yw hysbysiad a gyflwynir ar y Cyngor fel y manylir yng nghymal 9.

**Rheoliadau Gorfodi** yw Rheoliadau Trethiant Annomestig (Casglu a Gorfodaeth)(Rhestri Lleol) 1989.

**yr Eithriadau** yw'r amgylchiadau lle na fydd gofyn i'r Cyngor geisio gorfodi talu'r ardoll AGB lle methodd talwr Ardoll AGB wneud taliad yn unol â Hysbysiad Hawlio. Bydd yr eithriadau fel y cytunir arnynt gan y partïon o bryd i'w gilydd.

yr **Eiddo Eithredig** yw'r dosbarth neu'r dosbarthiadau hynny o eiddo fel y'u nodwyd yn Rheolau'r Ardoll AGB Rules a fydd wedi eu heithrio naill ai o unrhyw ofynion i dalu'r ardoll AGB neu eu bod yn cael disgownt ar yr ardoll AGB.

**Blwyddyn Ariannol** yw'r flwyddyn ariannol i'r Cwmni AGB sy'n rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

Golyga'r **Treuliau Blaenoriaeth Gyntaf** y treuliau gweinyddol a ddaeth i ran y Cyngor yng nghyswllt pob cost resymol sy'n codi o gydymffurfio â'u hymrwymiadau dan y Cytundeb hwn a'r Rheoliadau yn ystod pob blwyddyn o barhad y Cytundeb hwn.

DRAFT

**Gorchymyn Atebolrwydd** yw gorchymyn a gafwyd gan y Llys Ynadon yn unol â Rheoliad 12 y Rheoliadau Gorfodi.

y **Grŵp Monitro** yw'r grŵp a sefydlir i fonitro casglu a gorfodi'r ardoll AGB (fel y cyfeiriwyd ato yng nghymal 10) a bydd y cyfryw grŵp yn cynnwys un swyddog o Gyngor Gwynedd ac un cynrychiolydd o'r Cwmni AGB.

y **Dyddiad Gweithredu** yw'r dyddiad y daw'r Trefniadau AGB i rym.

y **Cyfarfod Cyhoeddus** yw'r cyfarfod a gynhelir o'r holl Dalwyr Ardoll AGB yn unol â'r Hysbysiad Cyfarfod Cyhoeddus a Rheoliad 18 y Rheoliadau.

**Hysbysiad Cyfarfod Cyhoeddus** yw hysbysiad i'w gyflwyno yn unol â chymal 11.1 neu 11.8 naill ai gan y Cyngor neu'r Cwmni AGB sydd yn darparu'r canlynol:-

(a) cadarnhad fod y naill ochr neu'r llall yn ystyried terfynu'r AGB;
(b) manylion y lleoliad lle cynhelir y cyfarfod cyhoeddus;
(c) cadarnhad y caniateir i'r holl Dalwyr Ardoll AGB fydd yn bresennol i wneud sylwadau

**Rheoliadau** yw Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005 a'r cyfryw welliannau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 48 ac Adran 58 Deddf Llywodraeth Leol 2003 (from time to time).

**Hysbysiad Atgoffa** yw'r hysbysiad a gyflwynir yn unol â chymal 8.1.

**Hysbysiad Gwŷs** yw'r hysbysiad i'w gyflwyno yn dilyn Hysbysiad Atgoffa ac yn unol â chymal 8.2.

**Diwrnod Gwaith** yw unrhyw ddydd o'r wythnos ar wahân i Sadwrn, Sul neu ŵyl banc.

DRAFT

## 2 Awdurdodau Statudol

2.1 Gwneir y Cytundeb hwn yn unol â Rhan IV o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 y Rheoliadau a'r holl bwerau galluogi eraill.

## 3 Cychwyniad

3.1 Bydd y Cytundeb hwn yn effeithiol o XXXXXXXX

3.2 os, ar ddiwedd y Tymor AGB y cynhelir pleidlais adnewyddu ac y bydd yn llwyddo, yna adolygir telerau'r Cytundeb hwn cyn cychwyn y Tymor AGB.

## 4 Gosod yr Ardoll AGB

4.1 Cyn gynted ag sy'n ymarferol a chyn cychwyn y tymor AGB, dylai'r Cyngor weithio allan yr ardoll AGB dyledus gan bob Talwr Ardoll AGB yn unol â'r Rheolau Ardoll AGB.

4.2 Cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi canlyniad y bleidlais, bydd Cyngor Gwynedd yn cadarnhau yn ysgrifenedig i'r Cwmni AGB yr ardoll AGB taladwy yn flynyddol gan bob talwr Ardoll AGB.

## 5 Y Cyfrif Refeniw AGB

5.1 Bydd taliadau llog ar arian yn y Cyfrif Refeniw AGB yn destun trefniadau bancio'r Cyngor ar adeg rhedeg y cyfrif. Telir y cyfryw log, os bydd peth, i'r Cwmni AGB fel rhan o'r Ardoll AGB.

## 6 Debydau o'r Cyfrif Refeniw AGB

6.1 Gall y Cyngor ddebydu'n uniongyrchol o'r Cyfrif Refeniw AGB:-

(i) y Treuliau Blaenoriaeth Gyntaf ar ganol pob blwyddyn ariannol ar yr amod y rhoddwyd manylion amdanynt mewn anfoneb TAW dilys a gyflwynwyd i'r Cwmni AGB gan roi dadansoddiad manwl o'r costau ddaeth i'w rhan.

DRAFT

6.2 Er gwaethaf y ddarpariaeth uchod, bydd y Cwmni AGB yn gyfrifol am sicrhau y telir pob anfoneb TAW a gludir i'r Cwmni AGB, oni chaiff ei ddebydu o'r Cyfrif Refeniw AGB, ymhen 28 diwrnod o'i gyflwyno.

**7 Casglu'r Ardoll AGB**

7.1 Bydd y Cyngor ar ddechrau pob Blwyddyn Ariannol yn cadarnhau yn ysgrifenedig wrth y Cwmni AGB:-

(i) y dull o anfonebu'r Talwr Ardoll AGB am yr Ardoll AGB; ac
(ii) y dyddiad y cesglir yr Ardoll AGB am y tro cyntaf.

7.2 Yn unol â chymal 7.1(ii) bydd y Cyngor yn cyflwyno'r Hysbysiadau Hawlio i bob Talwr Ardoll AGB ac wedi hynny bydd yn parhau i gyfrifo'r Ardoll AGB a chyflwyno'r Hysbysiadau Hawlio trwy gydol Tymor yr AGB.

7.3 Bydd y Cyngor yn cynnal rhestr sydd yn nodi talu a/neu beidio talu'r Ardoll AGB ac yn peri ei fod ar gael i'r Cwmni AGB ar gyfnodau o ddim llai nac unwaith y mis.

7.4 Bydd y Cyngor yn cysylltu â'r Cwmni AGB wrth wneud adolygiadau misol o bob Hereditament yn yr Ardal AGB. Os digwydd unrhyw newid ym meddiannwr pob Hereditament neu uno neu rannu Hereditament (neu ddarparu Hereditament ychwanegol) bydd yn:

(a) cyflwyno rhestr gyfoes o Dalwyr Ardoll AGB ar y Cwmni AGB;
(b) cyflwyno Hysbysiad Hawlio (neu newid unrhyw Hysbysiad Hawlio presennol os yw'n briodol) ar y Talwr Ardoll AGB perthnasol.

7.5 Bydd y Cyngor yn defnyddio pob ymdrech resymol i gasglu'r Ardoll AGB ar y dyddiad a bennwyd (yn unol â chymal 7.1(ii) uchod) ac wedi hynny yn flynyddol ac yn unol â'r weithdrefn a osodir allan yn Atodlen 4 y Rheoliadau.

DRAFT

7.6 Bydd y Cyngor yn defnyddio pob ymdrech resymol i gymryd camau rhesymol i gasglu'r Ardoll AGB sy'n gyson â'u gweithdrefnau arferol am gasglu ardrethi annomestig.

7.7 Bydd y Cyngor yn hysbysu'r Cwmni AGB o'r symiau a gredydwyd i'r Cyfrif Refeniw AGB ac o swm y debydau awdurdodedig yn unol â chymal 6. Gwneir hysbysiadau ar ddiwrnod gwaith olaf mis Ebrill a phob ail fis wedi hynny. Wedi derbyn anfoneb briodol gan y Cwmni AGB, bydd y Cyngor yn trosglwyddo i gyfrif banc y Cwmni AGB ei hun y swm dyledus gan roi cadarnhad ysgrifenedig o'r swm a drosglwyddwyd.

7.8 Os digwydd i'r Cyngor ordalu mwy na £5,000 i'r AGB am gyfnod o fwy na thri mis yn olynol, bydd yr AGB yn dychwelyd y gordaliad i Gyngor Gwynedd ymhen 14 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys.

**8 Gweithdrefnau sydd ar gael i'r Cyngor i orfodi talu'r Ardoll AGB**

8.1 Os digwydd na thelir yr Ardoll AGB yn gyfan ymhen wyth diwrnod ar hugain o'r dyddiad mae'r taliad yn ddyledus, yna (yn amodol ar yr Eithriadau neu fel y cytunir fel arall rhwng y partïon) bydd y Cyngor yn cyflwyno Hysbysiad Atgoffa ar y cyfryw Dalwr Ardoll AGB sy'n diffygdalu a fydd yn gwneud y canlynol:-

(i) nodi'r swm taladwy;
(ii) rhoi 14 (pedwar ar ddeg) o ddiwrnodau i'r taliad gael ei wneud;
(iii) cadarnhau oni dderbynnir taliad yn unol ag (ii) uchod bydd y Cyngor yn gwneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn Atebolrwydd i adennill y swm nas talwyd (ynghyd â chostau). I osgoi unrhyw amheuaeth, cytunir y bydd y costau a ddyfarnwyd ac a gafwyd gan y Cyngor yn codi o wneud unrhyw Orchymyn Atebolrwydd yn ddyledus i ac yn cael eu cadw gan y Cyngor ac ni fyddant yn daladwy i'r Cwmni AGB.

8.2 Os na thelir yr ardoll AGB yn llawn ymhen 14 (pedwar ar ddeg) diwrnod o gyflwyno'r Hysbysiad Atgoffa yn unol â chymal 8.1 yna bydd y Cyngor yn hysbysu'r Cwmni AGB yn syth o'r cyfryw fethiant pellach i dalu (yn amodol ar yr Eithriadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y

Cwmni AGB cyn penderfynu gwneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn Atebolrwydd. Bydd y Cyngor fel rheol wedyn yn gwneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn Atebolrwydd i adennill swm dyledus yr Ardoll AGB fel y caniateir gan y Rheoliadau a'r Rheoliadau Gorfodi (fel y'u diwygiwyd).

8.3 Os caniateir i gais y Cyngor i'r Llys Ynadon am Orchymyn Atebolrwydd bydd yn rhoi gwybod yn syth i'r Cwmni AGB. Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y Cwmni AGB cyn dod i drefniant gorfodi talu neu roi cyfarwyddiadau adennill i'r Asiant Gorfodi. Bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio Asiantwyr Gorfodi y mae ganddynt drefniadau gyda hwy ar yr adeg berthnasol.

**9 Mecanweithiau Gorfodi am beidio casglu'r Ardoll AGB gan y Cyngor**

9.1 Os nad yw'r Cyngor yn cymryd camau priodol i orfodi talu'r Ardoll AGB yn unol â chymal 8 uchod, bydd y Cwmni AGB yn cyflwyno'r Hysbysiad Gorfodi i'r Cyngor yn gofyn iddynt:-

(i) gyflwyno Hysbysiad Atgoffa; neu
(ii) Hysbysiad Atgoffa Pellach; neu
(iii) wneud cais i Lys i gael Gorchymyn Atebolrwydd yn unol â chymal 8.3 uchod; neu
(iv) ddod i drefniant gorfodi talu neu roi'r cyfrif i'r Asiant Gorfodi.

a bydd y Cyngor wedyn yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig o'r camau a gymerwyd i adennill yr Ardoll AGB na thalwyd.

9.2 Os, wedi derbyn Hysbysiad Gorfodi, y metha'r Cyngor gymryd y camau a fynnir ymhen 28 diwrnod, yna bydd y Cwmni AGB yn cyflwyno Hysbysiad Apêl i Brif Weithredwr y Cyngor. Bydd y cyfryw hysbysiad yn gwneud y canlynol:-

(i) rhoi manylion y swm sydd yn dal heb ei dalu;
(ii) cadarnhau y methodd y Cyngor ddefnyddio'r Mecanweithiau Gorfodi sydd ar gael iddo fel y cyfeirir atynt yn y Cytundeb hwn i adennill y swm; a



DRAFT

(iii) gofyn am gyfarfod rhwng y Prif Weithredwr, swyddogion perthnasol y Cyngor a'r Cwmni AGB i gael ateb a/neu gytuno ar strategaeth i adennill y swm dyledus, a'r cyfryw gyfarfod i ddigwydd beth bynnag ddim hwyrach na 28 (wyth ar hugain) diwrnod o gyflwyno'r Hysbysiad Apêl.

**10 Gweithdrefnau Cyfrifo a Monitro**

10.1 O fewn 1 (un) mis o'r Dyddiad Gweithredu, bydd y Cyngor a'r Cwmni AGB yn ffurfio'r Grwp Monitro.

10.2 Yn ychwanegol at y wybodaeth a amlinellir yn 7.4, bob mis, yn ystod Tymor yr AGB, bydd y Cyngor yn rhoi i'r Cwmni AGB ddadansoddiad o'r canlynol:-

(i) swm yr Ardoll AGB am bob Talwr Ardoll AGB unigol;
(ii) yr Ardoll AGB a gasglwyd yng nghyswllt pob Talwr Ardoll AGB;
(iii) manylion (ynghyd â'r swm sydd yn dal heb ei dalu) y Talwyr Ardoll AGB hynny sydd heb dalu'r Ardoll AGB ~~yn ystod y 6 mis hynny~~;
(iv) manylion yr Hysbysiadau Atgoffa a gyflwynwyd trwy gydol y cyfnod hwnnw; a
(v) manylion unrhyw Orchmynion Atebolrwydd a gafwyd neu y gwnaed cais amdanynt gan y Cyngor.

DRAFT

10.3 Bydd y Grŵp Monitro yn cyfarfod o leiaf unwaith mewn unrhyw un Flwyddyn Ariannol ac ar bob adeg arall, trefnir cyfarfodydd pellach y Grŵp Monitro trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig gan y naill barti ar y llall, a'r cyfryw hysbysiad i'w' ddarparu ddim llai na 28 (wyth ar hugain) diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod arfaethedig (neu lai os cytunir fel arall neu mewn achosion argyfwng) ac ar yr amod y gellir gwneud i ffwrdd yn gyfan gwbl â chyfarfodydd o'r fath o gael cytundeb ysgrifenedig y Cyngor a'r Cwmni AGB.

10.4 Ym mhob cyfarfod, bydd y Grŵp Monitro yn gwneud y canlynol:-

(i) adolygu effeithiolrwydd casglu a gorfodi'r Ardoll AGB; ac

(ii) os mynnir, adolygu ac asesu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor yn unol â chymalau 10.2 uchod a gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu y cytunir arnynt (ac a ganiateir gan y Rheoliadau a thelerau'r Cytundeb hwn).

10.5 Ymhen 1 (un) mis wedi dyddiad diwedd y Flwyddyn Ariannol bydd y Cyngor yn darparu'r Adroddiad Blynyddol i'r Cwmni AGB.

10.6 Bydd y Cwmni AGB yn darparu Adroddiad y Cwmni AGB i'r Cyngor bythefnos cyn eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**11 Terfynu**

11.1 Ni chaniateir i'r Cyngor derfynu'r Trefniadau AGB oherwydd:-

(i) yn eu barn hwy nid oes digon o arian ar gael i'r Cwmni AGB i gwrdd â'u hatebolrwydd am y cyfnod y gellir codi amdano at ddibenion y Trefniadau AGB; neu

(ii) na all y Cyngor, oherwydd unrhyw achos y tu hwnt i'w rheolaeth, ddarparu'r gwaith neu'r gwasanaethau a sicrheir fel rhan o'r Trefniadau AGB

oni fydd a hyd nes y bydd yn gyntaf yn cyflwyno'r Hysbysiad Cyfarfod Cyhoeddus ar y Talwyr Ardoll AGB a Hysbysiad Terfynu'r Cyngor ar y Cwmni AGB ac o fewn 14 (pedwar ar ddeg) diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r cyfryw hysbysiad, bydd y naill barti a'r llall yn trefnu i gyfarfod a diben y cyfryw gyfarfod fydd trafod a/neu gytuno ar y cyfan neu rai o'r isod a osodir allan yng nghymal 11.2 neu 11.3 (pa un bynnag sydd gymwys).

11.2 Lle bo Hysbysiad Terfynu'r AGB yn ymwneud â chymal 11.1(i) bydd y naill ochr a'r llall yn cytuno a/neu drafod neu adolygu'r canlynol:-

(a) fod y Cyngor yn pryderu nad oes gan y Cwmni AGB ddigon o arian i gwrdd â'u hatebolrwydd am y cyfnod hwnnw ac y dylai manylion y cyfryw bryderon fod ar gael i'r Cwmni AGB;

(b) dim digon o arian;

(c) dulliau eraill lle gellir unioni'r diffyg arian; ac

(d) amserlen briodol i ddatrys y mater hwn.

11.3 Lle mae a wnelo Hysbysiad Terfynu'r AGB â chymal 11.1(ii) bydd y naill ochr a'r llall yn cytuno a/neu yn trafod neu yn adolygu'r canlynol:-

(a) y gwasanaethau neu'r gwaith na all eu darparu bellach ynghyd â chadarnhad a manylion pam na ellir darparu'r cyfryw waith neu wasanaethau;

(b) adolygiad gan y naill ochr a'r llall ynghylch pam bod y cyfryw waith neu wasanaethau o bwysigrwydd sylweddol i'r AGB fel mai terfynu'r Trefniadau AGB yw'r unig ddewis;

(c) dulliau eraill o gael y dywededig wasanaethau neu waith gan drydydd partïon neu fwy o arian gan y Cwmni AGB;

(d) gwasanaethau neu waith arall yn eu lle a fydd yn dderbyniol i'r Cwmni AGB;

(e) amserlen briodol i ddatrys y mater hwn

11.4 Os na all y partion ddod i gytundeb yng nghyswllt yr uchod, bydd y Cyngor yn peri cynnal Cyfarfod Cyhoeddus ac yn amodol ar sylwadau a wnaed gan unrhyw Dalwr Ardoll AGB yn y Cyfarfod Cyhoeddus caniateir i'r Cyngor derfynu'r Trefniadau AGB ar yr amod y rhoddir hysbysiad gan y Cyngor i derfynu'r AGB i'r Cwmni AGB ddim llai na 28 diwrnod cyn i'r terfynu ddigwydd.

11.5 Pan derfynir y Trefniadau AGB bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad i weld a oes credyd yn y Cyfrif Refeniw AGB ac os bydd digon o arian yn y Cyfrif Refeniw AGB sydd yn gyfystyr ag ad-daliad o £5 o leiaf ar gyfer pob Talwr Ardoll AGB (gyda swm rhesymol eisoes wedi ei ddidynnu ar gyfer gweinyddu'r cyfryw ad-daliad) i wneud y canlynol:-

(a) cyfrifo'r swm a ad-delir i bob Talwr Ardoll AGB;

(b) sicrhau bod y swm a ad-delir yn cael ei gyfrifo trwy gyfeirio at y swm taladwy gan bob Talwr Ardoll AGB am y cyfnod olaf yr oedd y tâl yn ddyledus; a

(c) gwneud trefniadau i'r swm a gyfrifwyd i gael ei gredydu yn erbyn unrhyw atebolrwydd a erys ar gyfer pob Talwr Ardoll AGB neu, lle nad oes atebolrwydd do'r fath, ei ad-dalu i'r Talwr Ardoll AGB.

11.6 Pan derfynir yr AGB bydd y Cyngor yn hysbysu'r Talwyr Ardoll AGB o'r cyfryw derfynu yn unol â Rheoliad 18(6) y Rheoliadau ynghyd â chadarnhad ynghylch a ad-delir unrhyw ran o'r Ardoll AGB i'r Talwyr Ardoll AGB yn unol â chymal 11.8.

11.7 Ni chaniateir i'r Cwmni AGB derfynu'r Trefniadau AGB lle:-

(a) nad oes angen y gwaith neu'r gwasanaethau dan y Trefniadau AGB bellach; neu

(b) na all y Cwmni AGB, oherwydd unrhyw achos y tu hwnt i'w reolaeth, i ddarparu gwaith neu wasanaethau sy'n angenrheidiol i'r AGB barhau

oni fydd a hyd nes iddo gyflwyno Hysbysiad Terfynu'r Cwmni AGB i'r Cyngor ac ar ôl hynny wedi ymgynghori yn briodol gyda holl gynrychiolwyr perthnasol yr Ardal AGB fel y tybia'r Cyngor sy'n briodol.

11.8 Pan derfynir y Trefniadau AGB bydd y Cwmni AGB yn hysbysu'r Cyngor o'r cyfryw derfynu yn unol â Rheoliad 18(5) a dylai'r Cyngor hysbysu'r Talwyr Ardoll AGB yn unol â Rheoliad 18(6) ynghyd â chadarnhad ynghylch a ad-delir unrhyw ran o'r Ardoll AGB i Dalwyr Ardoll AGB yn unol â chymal 11.5.

## 12 Cyfrinachedd

12.1 Cytuna'r Cyngor a'r Cwmni AGB i gadw yn gyfrinachol ac i beidio â datgelu i unrhyw unigolyn heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol y parti arall bob gwybodaeth (ysgrifenedig neu lafar) ynghylch materion busnes y llall nac unrhyw wybodaeth a gyfnewidiwyd am y Talwyr Ardoll AGB neu Gyfranwyr neu am drydydd partion eraill a gafodd neu a dderbyniodd o ganlyniad i redeg

yr AGB. Bydd yr ymrwymiad hwn yn goroesi terfynu neu ddiffygio’r Trefniadau AGB. I osgoi unrhyw amheuaeth ni fydd dim yn y cymal hwn yn atal y Cyngor rhag defnyddio neu ddatgelu hynny o wybodaeth sydd yn angenrheidiol at ddibenion cydymffurfio â’u hymrwymiad dan y Cytundeb hwn.

**13 Hysbysiadau**

13.1 Bydd unrhyw hysbysiadau neu ohebiaeth ysgrifenedig arall a gyflwynir neu a roddir i neu ar unrhyw barti i’r Cytundeb yn ysgrifenedig a dylid ei anfon at y cyfeiriad a ddarparwyd ar gyfer yr uchod neu gyfryw gyfeiriad amnewid yng Nghymru a Lloegr yr hysbyswyd amdano o bryd i’w gilydd gan y Parti hwnnw.

13.2 Gall Hysbysiad gael ei gyflwyno trwy un o’r dulliau isod:-

13.2.1 cludo at y Senior Manager Revenues and Risk, Cyngor Gwynedd;
13.2.2 cludo at ysgrifennydd y cwmni yng nghyfeiriad y Cwmni AGB a nodwyd uchod;
13.2.3 post cofrestredig neu ddanfoniad wedi'i gofnodi;
13.2.4 Gohebiaeth Electronig (ar yr amod ei fod yn ddarllenadwy ac y gellir ei ddefnyddio i gyfeirio ato yn nes ymlaen);

13.3 Tybir y bydd unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd wedi ei gyflwyno neu ei roi yn ddilys ar yr adeg pan, yn nhrefn arferol busnes, y buasai wedi ei dderbyn

**14 Amrywiol**

14.1 I osgoi unrhyw amheuaeth, lle bo unrhyw ran o’r Cytundeb hwn yn anghydnaws â Deddf Llywodraeth Leol 2003 neu’r Rheoliadau neu unrhyw reoliadau eraill y gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi yn unol â Rhan IV Deddf Llywodraeth Leol 2003 i’r graddau y maent yn ymwneud â Chymru yna dileer y cyfryw ran ac erys gweddill y Cytundeb hwn.

14.2 Er mwyn hwylustod cyfeirio yn unig y mae’r penawdau yn y Cytundeb hwn, ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongliad y Cytundeb hwn.

14.3 I osgoi unrhyw amheuaeth ni fydd darpariaethau'r Cytundeb hwn (ac eithrio'r rhai hynny yn y cymal hwn) mewn grym hyd nes y gweithredwyd ac y dyddiwyd y ddogfen hon.

14.4 Lle cyfeirir at Gymal, Rhan neu Gronicliad, cyfeiriad yw hwnnw (oni fydd y cyd-destun yn mynnu'n wahanol) at gymal, rhan, cynllun neu gronicliad a atodir i'r Cytundeb hwn.

14.5 Mae cyfeiriadau at y Cyngor yn cynnwys unrhyw olynwyr i'w swyddogaethau fel awdurdod bilio perthnasol.

14.6 Bydd cyfeiriadau at statudau, is-ddeddfau, rheoliadau, gorchmynion, deddfwriaeth ddirprwyedig yn cynnwys unrhyw offeryn sydd yn ail-ddeddfu neu a wneir yn unol â'r un pŵer.

**15 Arfer pwerau'r Cyngor**

Ni fydd dim sydd yn y Cytundeb hwn neu a awgrymir ynddo yn rhagfarnu nac yn effeithio ar hawliau disgresiynau dyletswyddau ac ymrwymiadau'r Cyngor dan bob statud is-ddeddf offeryn statudol gorchymyn a rheoliad wrth arfer ei swyddogaethau fel awdurdod lleol.

**16 Contractau (Hawliau Trydydd Partion)**

Ni fydd darpariaethau Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partion) 1999 yn gymwys i'r Cytundeb hwn.

**17 Cyflafareddu**

Bydd y darpariaethau canlynol yn gymwys os cyfyd anghydfod:

17.1 Cyfeirir unrhyw anghydfod neu wahaniaeth o unrhyw fath a gyfyd rhwng y partion i hyn allan o'r Weithred hon neu yng nghyswllt â hi at gyflafareddu gerbron un cyflafareddwr.

17.2 Bydd y partion ar y cyd yn penodi'r cyflafareddwr ddim hwyrach na 28 (wyth ar hugain) diwrnod wedi cyflwyno cais yn ysgrifenedig gan y naill barti neu'r llall a bydd y naill barti a'r llall yn dwyn eu costau eu hunain.

17.3 Os na all y partion gytuno ymhen 28 (wyth ar hugain) diwrnod ynghylch penodi'r cyfryw gyflafareddwr yna penodir cyflafareddwr o'r fath (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Tribiwnlys") ar gais y naill ochr neu'r llall at Lywydd Cymdeithas y Gyfraith ar y pryd.

17.4 Os bydd cyfeirio at gyflafareddu, mae'r partion yn cytuno i wneud y canlynol:

- Gweithredu'r cyfryw gyfeirio yn gyflym; a
- Gwneud popeth neu gymryd pob cam rhesymol angenrheidiol i alluogi'r Tribiwnlys i roi unrhyw ddyfarniad (interim, terfynol neu fel arall) cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

17.5 Bydd y dyfarniad yn ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan y Tribiwnlys a rhoddir ar ei ffurf derfynol ymhen 21 (un ar hugain) diwrnod o ddyddiad y cyfryw ddyfarniad.

17.6 Bydd y dyfarniad yn derfynol ac yn rhwymo'r naill barti a'r llall ac ar unrhyw unigolion sydd yn hawlio trwyddynt neu danynt.

## 18 Rhyddid Gwybodaeth

18.1 Mae'r Cwmni AGB yn derbyn bod rheidrwydd ar y Cyngor i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Cod Ymarfer ar y Ddeddf, a bydd yn cynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio â'r ymrwymiadau hyn. Mae hyn yn cynnwys helpu'r Cyngor i gydymffurfio â'i ymrwymiad i ymateb i gais am wybodaeth ymhen 20 diwrnod o'i dderbyn; a darparu gwybodaeth i'r Cyngor lle bo'r Cyngor yn gofyn am hynny.

18.2 Mae gan y Cyngor hawl i ddatgelu gwybodaeth oni chred bod y wybodaeth yn eithriedig dan y Ddeddf. Gall eithriad fod yn gymwys lle, er enghraifft, y



DRAFT

darperir gwybodaeth yn gyfrinachol, lle mae'r wybodaeth yn gyfrinach fasnachol neu lle byddai ei ryddhau yn debyg o fod yn niweidiol i fuddiannau masnachol. Bydd y Cyngor yn penderfynu, gan weithredu'n rhesymol, a ddylid datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdano dan y Ddeddf ai peidio. Bydd y Cyngor, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, yn ymgynghori a'r Cwmni AGB ac yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ganddo.

Ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw golled nac unrhyw niwed arall a achoswyd gan ddatgelu unrhyw wybodaeth mewn ymateb i gais am wybodaeth dan y Ddeddf.

Llofnodwyd gan y partion neu'r cynrychiolwyr a awdurdodwyd ganddynt

Llofnodwyd gan )
awdurdodwyd ar gyfer )
ar ran )
Cyngor Gwynedd )______________________________________

Llofnodwyd gan )
awdurdodwyd ar gyfer )
ar ran )
Cyngor Gwynedd )______________________________________

Llofnodwyd gan )
awdurdodwyd ar gyfer )
ar ran )
AGB************ )______________________________________

DRAFT

**Atodlen 1 – Rheolau / Trefniadau Ardoll AGB**

Mae'r Atodlen hon yn gosod allan yn fanylach y wybodaeth dechnegol a chyllidebol ynghylch sut y bydd (AGB) Caernarfon/Bangor yng Nghanolfan Caernarfon/Bangor yn rhedeg i'r graddau y mae'r trefniadau rhwng y Cwmni AGB a'r Cyngor yn y cwestiwn. Os cyfyd unrhyw wrthdaro rhwng corff y Cytundeb hwn a'r Atodlen hon, yna bydd y Cytundeb yn drech na'r Atodlen hon

.

**1 Diffiniadau**

Diffiniadau o eiriau neu dermau y cyfeirir atynt yn y trefniadau hyn yw'r rhai a osodwyd allan neu y cyfeirir atynt yn Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005, Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 oni ddiffinnir hwy yn benodol yn y Cytundeb hwn.

**2 Cynigydd yr AGB**

Cynigydd yr AGB yw Pwyllgor Rheoli Grŵp Llywio AGB Caernarfon/Bangor. Y corff AGB fydd Ardal Gwella Busnes (AGB) Caernarfon/Bangor Cyf. Caiff ei ymgorffori fel cwmni cyfyngedig trwy warant os ceir canlyniad cadarnhaol i bleidlais ym mis Medi 2015.

**3 Llywodraethiant**

Rhedir yr AGB gan Gwmni AGB Caernarfon/Bangor

Bydd y Bwrdd arfaethedig yn adlewyrchu busnesau yn ardal yr AGB i sicrhau corff cynrychioliadol i arwain datblygu AGB Caernarfon/Bangor. Bydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o blith y canlynol:

Busnes Mawr
Busnes Canolig
Busnes Bach
Gwasanaethau Proffesiynol
Economi'r Nos
Fforwm Busnes / Siambr Fasnach (cyfraniad ardoll gwirfoddol)

Corff Statudol (e.e. yr awdurdod lleolthe local authority)
Cyngor Dinas / Tref Lleol.
Grŵp Cymunedol lleol
Busnesau ychwanegol y'n cynrychioli gwahanol ardaloedd daearyddol yn yr AGB

Disgwylir y bydd y Grŵp Llywio yn gweithredu themâu arfaethedig y Cynllun Busnes: Glân a Gwyrdd; Smart a Diogel; Hyrwyddo a Balchder; Dylanwadol a Integredig. Mae'r themâu hyn yn cael eu harwain gan y Bwrdd a/neu unrhyw is-grwpiau a sefydlwyd. Ffurfir is-grwpiau o Aelodau AGB, sydd yn gyfrifol am ddatblygu cyllidebau manwl ar gyfer eu grŵp, sydd wedyn yn cael eu pasio at y Bwrdd i'w cymeradwyo. Caiff pob busnes y cyfle i gael eu cynrychioli ar yr is-grwpiau hyn a'r Bwrdd. Caiff is-grwpiau eu sefydlu yn ôl y galw.

## 4 Aelodaeth o'r Cwmni

Gwahoddir pob Talwr Ardoll AGB i fod yn Aelod o'r Cwmni. Gall Aelodau'r Cwmni wedi eu henwebu eu hunain i fod yn gyfarwyddwyr neu i eistedd ar un o Is-Grwpiau'r AGB.

Bydd y Bwrdd yn rheoli'r Tîm Gweithredol, a fydd yn cyflwyno'r prosiectau a'r gwasanaethau fel sydd wedi eu gosod allan yn y Cynnig AGB.

## 5 Hyd yr AGB

Tymor yr AGB fydd pum mlynedd o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2021. Cyn diwedd y cyfnod hwn, gall Bwrdd yr AGB ddewis ceisio adnewyddu'r AGB am dymor pellach, trwy bleidlais adnewyddu.

## 6. Yr Ardal AGB

Mae'r ardal sy'n dod dan y cynnig yn cynnwys rhannau o Ganol Tref/Dinas Caernarfon/Bangor fel sy'n cael eu dangos yn y map islaw.

DRAFT

Mae ardal yr AGB yn cynnwys y strydoedd canlynol, naill ai yn gyfan neu yn rhannol:

| Caernarfon | Bangor |
|---|---|
| Castle Square / Y Maes | High Street / Stryd Fawr |
| Pool Street / Stryd Llyn | Station Road / Stryd yr Orsaf |
| Greengate Street / Tan y Bont | Ffordd Gwynedd |
| Hole in the Wall Street / Stryd Twll yn y Wal | Deiniol Road / Ffordd Deiniol |
| Palace Street / Stryd y Plas | Tan-y-Fynwent |
| Shirehall Street / Stryd y Jêl | Waterloo Road / Stryd Waterloo |
| Bangor Road / Stryd Bangor | Garth Road / Ffordd Garth |
| Pool Hill / Penllyn | Glanrafon |
| St Helens Road / Ffordd Santes Helen | Dean Street / Stryd y Deon |
| Church Lane / Lôn yr Eglwys | Ashley Road |
| Northgate Street / Stryd Pedwar a Chwech | Brick Street |
| High Street / Stryd Fawr | Mount Street |
| Lôn Crwyn | Plas Llwyd Terrace |
| North Penrallt / Penrallt Uchaf | Tan y Fynwent |
| Lôn Twthill | Ebenezer Place |
| Slate Quay / Cei Llechi | York Place |
| Castle Ditch / Pendeitsh | Ffordd y Ffynnon |
| Castle Hill / Allt y Castell | Sackville Road / Ffordd Sackville |
| Bridge Street / Bont Bridd | |
| Pool Side / Penllyn | |
| Bank Quay / Cei Banc | |
| Glan Môr / Crown Street | |
| Doc Fictoria | |
| Balaclava Road / Balaclafa | |
| Church Street / Stryd yr Eglwys | |
| Market Street / Stryd y Farchnad | |
| Pretoria Terrace / Rhes Pretoria | |
| Castle Street / Stryd y Castell | |
| Mill Lane / Lôn y Felin | |
| South Penrallt / Penrallt Isaf | |
| Pool Lane / Pen y Graig | |
| Allt Pafiliwn | |

## 7 Sicrhau bod gwasanaethau AGB yn ategol

Nid oes cysylltiad rhwng swm y dreth fusnes a gesglir gan y Cyngor a'r swm a dderbynia'n ôl gan y Llywodraeth Ganolog i gyflwyno gwasanaethau yn yr ardal.

Mae AGB, ar y llaw arall, yn cynhyrchu refeniw a gaiff ei neilltuo ar gyfer yr ardal lle'i cesglir, i'w wario ar brosiectau er lles busnesau sydd yn talu'r Ardoll AGB. Bydd pob gwasanaeth a ddarperir gan yr AGB yn ychwanegol at y rhai a ddarperir gan y Cyngor. Mae hyn yn cael ei sicrhau trwy gynhyrchu 'Cytundeb Gwaelodlin' sydd yn gosod allan lefel y gwasanaeth statudol a ddarperir eisoes ar gyfer yr ardal AGB. Mae hyn yn sicrhau bod yr ardoll AGB yn talu'n unig am wasanaethau a phrosiectau dros ac uwchlaw'r lefel hon.

**8 Y Bleidlais AGB**

Rheolir y bleidlais gan y Gwasanaethau cyfreithiol yng Nghyngor Gwynedd a bydd yn rhedeg rhwng 1 Awst a 24 Medi, 2015. Bydd y Bleidlais yn cau am 5pm ar y 24 o Fedi, 2015 Pleidlais bost gyfrinachol fydd hon o'r Hereditamentiau cymwys ar y Rhestr Ardrethiant Annomestig Cenedlaethol ar adeg cyhoeddi hysbysiad y bleidlais. Lle bo meddianwyr Hereditamentiau unigol wedi enwebu yn ysgrifenedig enw'r sawl ddylai bleidleisio ar ei ran, anfonir yr hysbysiad o'r bleidlais a'r papurau pleidleisio atynt.

**9 Busnesau Cymwys**

Ni fydd y canlynol yn gymwys am yr Ardoll AGB, na'r bleidlais:

- Unedau busnes gyda gwerth ardrethol o lai na £2,000;
- Hawliau hysbysebu, mastiau teliffon, a chiosgau.

Mae pob math arall o fusnes yn gymwys i bleidleisio yn y bleidlais AGB ac i dalu'r Ardoll AGB. Bydd hereditamentiau ('unedau' a ardrethwyd o ofod busnes) gyda gwerth ardrethol o lai na £2,000 wedi eu heithrio o dalu'r Ardoll ac felly ni fyddant yn gymwys i bleidleisio yn y bleidlais. Ar hyn o bryd, golyga hyn y bydd tua 330/340 eiddo ardrethol yn gymwys am y bleidlais ac i dalu'r Ardoll AGB yng Nghaernarfon / Bangor

Mae croeso i fusnesau gyda gwerth ardrethol o lai na £2,000 gymryd rhai o wasanaethau'r AGB trwy gyfrannu yn wirfoddol ar gyfradd y cytunir arni.

Lle nad oes neb mewn Hereditamentiau ar adeg yr hysbysiad o bleidlais, bydd gan y perchennog hawl i bleidleisio ym mhleidlais AGB. Y Talwr Ardoll AGB mewn achosion o Hereditamentiau heb feddianwyr fydd perchennog yr Hereditament cyfan. Ni roddir unrhyw gyfnod 'gwag' tri mis ac ni fydd yr Hereditamentiau hynny a eithriwyd o ardrethi eiddo gwag wedi ei heithrio o'r Ardoll AGB. Mae'r ardoll AGB i'w thalu boed rhan neu'r cyfan o'r eiddo yn wag neu beidio. Diffinnir y term 'perchennog' yn adran 65(1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998.

Ni fydd busnesau sy'n derbyn rhyddhad gorfodol a / neu ddewisol o ardrethi busnes yn cael disgownt i'r Ardoll AGB ar yr un gyfradd. Ni chaiff yr Ardoll AGB ostyngiad trwy unrhyw ryddhad dewisol.

## 10 Yr Ardoll AGB

Tal dyddiol yw'r Ardoll AGB. Bydd deiliaid a pherchennog-ddeiliaid yn talu'r ardoll ar y gyfradd o 1.5% o werth ardrethol, ar sail Rhestr Ardrethiant 2010. Codir yr Ardoll AGB ar 1.5% o werth ardrethol pob Hereditament a restrir yn y Rhestr Ardrethiant. I ddechrau, mae hyn yn debyg o gynhyrchu rhyw £86,000/127,000 y flwyddyn am ardal Caernarfon / Bangor.

Bydd asesiadau newydd a ddygir i'r Rhestr Ardrethiant yn atebol am yr ardoll AGB fel o'r dyddiad dod i rym a roddir yn y Rhestr Ardrethiant. Os tynnir hereditament o'r Rhestr Ardrethiant, bydd atebolrwydd am yr ardoll AGB yn gymwys hyd at ddiwrnod dileu'r asesiad o'r Rhestr Ardrethiant.

Mae'r tabl isod yn gosod allan yr Ardreth ddangosol ar 1.5% sy'n daladwy i fusnesau yn dibynnu ar eu gwerth ardrethol:

| Gwerth ardrethol dangosol (£) | Gwerth Ardoll AGB Dangosol (£) |
|---|---|
| 5.000 | 75 |
| 10.000 | 150 |
| 50,000 | 750 |
| 100,000 | 1,500 |
| 500,000 | 7,500 |

DRAFT

**Beth os wyf eisoes yn talu ardrethi a thaliadau gwasanaeth fel rhan o'm rhent?**

Lle bo meddianwyr Hereditamentiau yn talu rhent cynhwysol neu dâl arall sydd yn cynnwys tâl yr ardreth, mae'r perchennog yn atebol i dalu'r Ardoll AGB ac felly mae'n gymwys i bleidleisio yn y bleidlais.

**Rwy'n ystyried cymryd mwy o eiddo yn ardal yr AGB. Fydd rhaid i mi dalu ardreth ar y rhain pan fyddaf yn symud i mewn?**

Bydd busnesau a ddechreuodd feddiannu Hereditamentiau oedd yn bod eisoes yn ystod cyfnod yr AGB yn atebol i dalu'r Ardoll am gyfnod eu meddiannu, ar yr amod yr erys yr Hereditament yn gymwys am yr Ardoll AGB. Estynnir yr Ardoll AGB i feddianwyr Hereditamentiau a godwyd neu a feddiannwyd gyntaf yn ardal yr AGB yn ystod oes yr AGB, a rhagdybio eu bod yn gymwys fel arall. Yn yr achosion hynny, caiff yr Ardreth ei chyfrifo ar y gwerth ardrethol a roddwyd yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Rhestr Ardrethiant.

Bydd meddianwyr Hereditamentiau mewn datblygiadau newydd y tu mewn i ffin yr AGB hefyd yn atebol am yr ardoll AGB, a rhagdybio eu bod fel arall yn gymwys.

## 11 Casglu'r Ardoll –ychwanegu costau casglu

Bydd y Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r Ardoll AGB ar ran AGB Caernarfon/Bangor . Bydd yr Ardoll AGB yn daladwy mewn un taliad y flwyddyn. Codir biliau ym mis Mawrth a daw'r tâl yn ddyledus ar 1 Ebrill bob blwyddyn. Caiff biliau a godir trwy gydol y flwyddyn eu bilio'n achlysurol gyda'r tâl yn ddyledus ymhen 28 diwrnod. Mae manylion mesurau gorfodi i gasglu'r Ardoll AGB dan gymal 8 uchod dan y teitl 'Gweithdrefnau sydd ar gael i'r Cyngor i orfodi talu'r Ardoll AGB'

Mae'r Ardoll AGB yn dâl gorfodol a gellir gorfodi ei gasglu yn yr un modd â'r trethi busnes (annomestig). Wedi 28 diwrnod o beidio â thalu'r Ardoll AGB, anfonir nodyn atgoffa yn rhoi 14 diwrnod arall i dalu. Os, wedi 7 diwrnod pellach o'r dyddiad talu a nodwyd yn yr Hysbysiad Atgoffa na thalwyd swm dyledus yr Ardoll AGB, bydd y Cyngor yn gwneud cais i'r Llys Ynadon am orchymyn Atebolrwydd i adennill swm dyledus yr Ardoll AGB. Bydd y Cwmni AGB yn mynd ati i gasglu'r Ardoll AGB, gan ddefnyddio pob mecanwaith gorfodi sydd ar gael. Bydd peidio â thalu'r Ardoll AGB yn golygu costau ychwanegol i'r busnes dan sylw.

Bydd y Cyngor yn gwneud cais i'r Llys Ynadon i adennill eu costau rhesymol a ddaeth i'w rhan wrth gael unrhyw orchymyn (a amcangyfrifir ar hyn o bryd fel £70.00 o gostau am bob gorchymyn atebolrwydd).

## 12 Cost y bleidlais AGB

Cyngor Gwynedd fydd yn talu costau'r bleidlais AGB.

## 13 Newidiadau i drefniadau'r AGB

Dim ond mân newidiadau y gellir eu gwneud i drefniadau'r AGB heb gael caniatâd ffurfiol Aelodau'r AGB. Gall trefniadau AGB gael eu newid heb bleidlais newid, cyhyd ag nag oes cynnig i newid y canlynol:

- Ardal ddaearyddol yr AGB;
- Yr Ardoll AGB mewn modd fyddai yn:
  - (i) achosi i unrhyw unigolyn fod yn atebol i dalu'r Ardoll AGB, nad oedd gynt yn atebol i dalu; neu
  - (ii) cynyddu'r Ardoll AGB ar gyfer unrhyw unigolyn ac eithrio at ddibenion chwyddiant fel y'i datgenir uchod.

Lle gellir newid y trefniadau AGB heb bleidlais newid, gwneir y newid trwy benderfyniad Bwrdd AGB Caernarfon/Bangor , yn dilyn ymgynghori gyda Chyngor Gwynedd.